LC662

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Cymorth Gwladol (Llety Preswyl) (Taliadau Ychwanegol, Cyfraniadau Perthnasol ac Asesu Adnoddau) (Cymru) 2003**

Mae'r rhain yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â thalu am lety preswyl a ddarperir o dan Ran III o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae rhai mân wallau drafftio, a gwahoddir y Cynulliad i dalu sylw abennig iddynt. Mae'r rhain wedi cael eu cydnabod ar ran y Gweinidog priodol a byddai'n briodol eu cynnwys mewn memorandwm cywiriadau.

**Enwi Pwerau**

Dylai hyn gynnwys adran 22(5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948. Dyma'r pŵer y gwnaed Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992 oddi tanynt, a chan hynny, dyma'r pŵer y mae rheoliad 5 yn diwygio'r Rheoliadau hynny oddi tanddo. Nodir bod adran 22(5) wedi'i enwi yn y rheoliadau diwygio cyfatebol sydd wedi'i gwneud ar gyfer Lloegr.

**Rheoliad 6(2) - prif eiriad**

Er mwyn i fwriad hyn fod yn glir, ystyrir y dylai "yn rhan" yn llinell 2 fod yn "y rhan honno", ac y dylai "y gwerth hwnnw" yn llinell 5 fod yn "y rhan honno".

**Rheoliad 6(2)(b)**

Mae'r cyfeiriad at "y taliadau a ddisgrifir yn is-baragraff (a)" yn gamarweiniol oherwydd nid yw paragraff (b) yn cyfeirio at y taliad a enwir yn benodol ym mharagraff (a) ond at daliad damcaniaethol a gyfrifir ar sail gwahanol. Mae angen i baragraff (b) gyfeirio at y taliadau y

byddai'n rhaid i'r preswylydd eu talu yn unol â'r rheoliadau a enwir ym mharagraff (a) pe na chymerid i ystyriaeth ei fuddiant yn yr eiddo.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

18 Mawrth 2003